WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NAA

**Cyfeirnod:** AJB537/mh
**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Chwefror 2019

Annwyl Llyr

## Trefniadau archwilio

Roedd arnaf eisiau gadael i chi wybod am benderfyniad y mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei wneud yn ddiweddar ynghylch y modd y bydd gwaith archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gyflawni.

Fel y gwyddoch, dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith archwilio wedi cael ei gyflawni i'r Archwilydd Cyffredinol drwy gyfuniad o staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau yn y sector preifat.

Yn diweddar, rydym wedi bod yn adolygu'n ofalus iawn pa drefniadau y dylem eu sefydlu pan fydd ein contractau presennol â'r cwmnïau hyn yn dod i ben yn 2020. Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu peidio â gwahodd tendrau am archwiliadau y tu hwnt i 2020. Roedd hwn yn benderfyniad anodd ac nid yw'n adlewyrchu ansawdd gwaith y cwmnïau.

Yn hytrach, mae'n ganlyniad nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- gostyngiad cyffredinol a ragwelir yn swm gwaith archwilio'r sector cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod gyda'r angen, o ganlyniad, i sicrhau bod gwasanaethau archwilio'n cael eu darparu mewn ffordd gost-effeithiol;
- yr angen i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cwrdd â'u dyletswyddau dan Safonau'r Gymraeg;
- ansicrwydd ynghylch siâp sector y cynghorau tref a chymuned ynghyd ag ansicrwydd ychwanegol yn codi o adolygiad, y bwriadwn ei gynnal, o'r drefn archwilio ar gyfer y sector hwnnw; ac
- ansicrwydd sy'n parhau ynghylch p'un a fydd llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu neu beidio yn y tymor canol.

Mae effaith gyfunol y ffactorau hyn ac eraill yn creu lefel o ansicrwydd fyddai'n ei gwneud yn anodd iawn dros y flwyddyn neu ddwy nesaf i wahodd tendrau ar gyfer contractau ystyrlon, nad ydynt yn achosi risgiau a phwysau cost annerbyniol i Swyddfa Archwilio Cymru ac i'r cwmnïau hefyd.

Mae hon yn sefyllfa y byddwn yn ailedrych arni'n flynyddol yng ngoleuni datblygiadau yn ein hamgylchedd gweithredu allanol a byddwn yn rhoi diweddariadau i randdeiliaid fel bo'n briodol.

Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau sy'n cyflawni'r gwaith hwn ar hyn o bryd er mwyn sicrhau trawsnewid esmwyth ar gyfer y cyrff a archwilir, y bydd hyn yn effeithio arnynt.

Peidiwch ag oedi, os gwelwch yn dda, rhag rhoi gwybod i mi os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Anthony Barrett
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol